

SIAPIO HI!

Sut i godi arian

Gellir noddi'r disgyblion am bob siâp y gallant ei greu mewn timau.

Er enghraifft: 50c am bob siâp x 10 siâp = £5.00

Fel arall, gall y rhieni a'r gofalywyr wneud cyfraniad.

Gallech wneud y gweithgaredd hwn yn y dosbarth gyda'r disgyblion mewn timau, neu beth am gynnal cystadlaethau rhwng dosbarthiadau neu hyd yn oed yr athrawon yn erbyn y disgyblion!

Cyfleoedd dysgu

- adnabod a deall gwahanol siapiau geometrig sy'n mynd yn fwy anodd wrth fynd ymlaen
- gweithio a chyfathrebu mewn tîm

Beth sydd ei angen arnoch

- dau dîm o ryw 10 - 15 disgybl
- ystafell fawr gyda matiau meddal wedi'u gosod ar y llawr. Byddai neuadd chwaraeon yn ddelfrydol.
- cyfres o gyfarwyddiadau / taflen sgorio ar gyfer arweinydd y gweithgaredd a'r beirniaid
- cloc amseru
- cadeiriau ar gyfer yr arweinydd a'r beirniaid

Sut i chwarae


1. Mae'r disgyblion yn ffurfio dau dîm, sef tîm A a tîm B.
2. Mae'r arweinydd yn egluro'r gêm, sef bod yn rhaid i'r disgyblion weithio gyda'i gilydd i greu'r siâp a gaiff ei ddarllen allan ac y bydd ganddynt 60 eiliad i wneud hynny. Bydd y tîm sydd wedi creu'r siâp mwyaf cywir yn cael pwyntiau, yn ôl penderfyniad y beirniaid.
3. Mae'r arweinydd yn darllen enw 12 siâp allan yn eu tro; mae'r myfyrwyr yn cael eu hamseru ac mae pwyntiau'n cael eu dyfarnu. Mae'r siapiau yn mynd yn fwy anodd wrth i'r gêm fynd yn ei blaen.
4. Rhoddir 2 bwynt am y siâp gorau, 1 pwynt am gael y siâp iawn, a 0 os yw'r siâp yn hollol anghywir.

Ar y tudalennau sy'n dilyn, awgrymir siapiau y gellid eu cynnwys, ynghyd â thaflen gofnodi a argymhellir

SIAPIO HI!

Shapes

1. Petryal
2. Sgwâr
3. Triongl hafalochrog
4. Triongl isosgeles
5. Rhombws
6. Paralelogram
7. Barcud
8. Cylch
9. Hecsagon rheolaidd
10. Pentagon rheolaidd
11. Hanner cylch
12. Octagon rheolaidd
13. (her – dewisol) Pyramid â gwaelod sgwâr



Recording table

SIÂP	TÎM A	TÎM B
Petryal		
Sgwâr		
Triongl hafalochrog		
Triongl isosgeles		
Rhombws		
Paralelogram		
Barcud		
Cylch		
Hecsagon rheolaidd		
Pentagon rheolaidd		
Hanner cylch		
Octagon rheolaidd		
Pyramid â gwaelod sgwâr		
Total points		

